# RSPCA Cymru

## Balot ar gyfer Biliau Aelodau

## Llanwch y Bleidlais â 'Chyfreithiau Creaduriaid'

**Mae'r RSPCA Cymru o'r farn fod y Bleidlais ar gyfer Biliau Aelodau sydd ar y gweill yn Senedd Cymru yn gyfle delfrydol i hyrwyddo achos lles anifeiliaid yng Nghymru.**

Gall Cymru ymfalchïo yn ei hanes o ran lles anifeiliaid. Mae polisïau yn y maes hwn yn dylanwadu ar rannau helaeth o'r boblogaeth gan fod 47 y cant[1] o aelwydydd yn berchen ar o leiaf un anifail anwes a lles anifeiliaid fferm wedi bod yn ganolog i dreftadaeth amaethyddol y genedl. Mae Cymru hefyd yn gartref i amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt.

Ers dechrau datganoli, mae Cymru wedi bwrw ymlaen â rhai datblygiadau deddfwriaethol a pholisi o bwys ym maes lles anifeiliaid. Fodd bynnag, mae yna feysydd eraill lle mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU – ac mae'r Bleidlais ar gyfer Biliau Aelodau yn cynnig cyfle unigryw i gael atebion deddfwriaethol anllywodraethol i helpu i wneud Cymru yn lle gwell fyth i anifeiliaid anwes, anifeiliaid fferm a bywyd gwyllt fyw ynddi.

Mae'n bleser gan RSPCA Cymru gyflwyno cyfres o gynigion deddfwriaethol parod-i'w-defnyddio ar gyfer Aelodau'r Senedd, a'r rhain yn ymdrin ag ystod amrywiol o bynciau sy'n effeithio ar anifeiliaid mewn gwahanol ffyrdd. Er y gellid cyflawni rhai o'r amcanion isod hefyd trwy lwybrau eraill – megis is-ddeddfwriaeth, canllawiau statudol neu newid polisi – mae'r Bleidlais hon yn cynnig cyfle prin a phwysig i gynnig y syniadau hyn i'r Senedd.

Mae trigolion etholaeth pob un o 60 Aelod y Senedd yn teimlo'n angerddol am les anifeiliaid gan fod y mater yn rheolaidd yn cael

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 - Lles anifeiliaid anwes

sylw amlwg yn sachau post gwleidyddion. Cyn yr etholiad diweddar i Senedd Cymru ym mis Mai, anfonwyd mwy na 2,500 o lythyrau at y prif bleidiau gwleidyddol o blaid maniffesto RSPCA Cymru – ac roedd yn galonogol am y tro cyntaf gweld pob plaid yn mabwysiadu penodau neu adrannau penodol am les anifeiliaid yn eu cynnig i bleidleiswyr. Mae llawer o'r awgrymiadau deddfwriaethol a ganlyn wedi'u haddasu o gynigion maniffesto'r RSPCA a oedd mor boblogaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn nechrau 2021.

Mae cynigion deddfwriaethol o'r meinciau cefn wedi helpu i drawsnewid y dirwedd lles anifeiliaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yn San Steffan, trawsnewidiwyd y gyfraith ynghylch lles ceffylau a phori anghyfreithlon yn Lloegr trwy Fil Aelod Preifat a gyflwynwyd gan Julian Sturdy AS; tra bod y ddedfryd uchaf ar gyfer y troseddau gwaethaf yn erbyn lles anifeiliaid wedi cynyddu ddeg gwaith diolch i Fil Aelod Preifat gan Chris Loder AS – deddf sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr ill dwy. Mae Biliau Aelodau Preifat yn San Steffan sy'n ymwneud ag anifeiliaid ond heb eu rhoi ar y llyfr deddfau hefyd wedi annog Llywodraeth y DU i ddefnyddio dulliau eraill i weithredu; er enghraifft trwy ddarparu cytundebau tenantiaeth enghreifftiol yn Lloegr ar gyfer landlordiaid er mwyn annog perchnogaeth ar anifeiliaid anwes yn y sector rhentu preifat. Mae'r RSPCA yn gobeithio y bydd Cymru nawr yn bachu ar y cyfle i wella cyfraith, polisïau a phrotocolau lles anifeiliaid a gyflwynir drwy'r Bleidlais hon ar gyfer Biliau Aelodau.

| **Bil Ymdeimladoldeb Anifeiliaid (Cymru)** | |
|---|---|
|  | Yr un fath â bodau dynol, rhaid cydnabod bod anifeiliaid yn fodau ymdeimladol. Mae ganddyn nhw'r gallu i deimlo llawenydd, pleser, poen ac i ddioddef – ac mae'n hanfodol fod hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfraith Cymru ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r llywodraeth nesaf roi sylw cyfreithiol i anghenion anifeiliaid ymdeimladol ac adrodd ar sut yr ystyrir ymdeimladoldeb ar draws adrannau'r llywodraeth, gyda chefnogaeth corff cynghori annibynnol. Mae cydnabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yn y gyfraith yn anfon y neges gryfaf bosibl bod lles a statws anifeiliaid yn cael eu parchu.<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru roi sylw cyfreithiol i anghenion anifeiliaid ymdeimladol ac adrodd ar sut mae ymdeimladoldeb yn cael ei ystyried ledled adrannau'r llywodraeth, gyda chefnogaeth |

| | |
|---|---|
| | corff cynghori annibynnol. Mae cydnabod ymdeimladoldeb anifeiliaid yn y gyfraith yn anfon y neges gryfaf bosibl bod lles a statws anifeiliaid yn cael ei barchu.<br><br>Yn San Steffan, bydd y Bil Lles Anifeiliaid (Ymdeimladoldeb) yn sefydlu Pwyllgor Ymdeimladoldeb Anifeiliaid a bydd hwn yn llunio adroddiad ar effaith unrhyw bolisi gan Lywodraeth y DU ar ymdeimladoldeb anifeiliaid ac unrhyw effaith andwyol ar eu lles. Mae hyn yn golygu y bydd craffu ar unrhyw bolisi gan Lywodraeth y DU sy'n berthnasol i Gymru, sef craffu ar effaith polisïau ar ymdeimladoldeb, ond eto ni fydd polisi Llywodraeth Cymru – gan gynnwys maes lles anifeiliaid lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli – yn gwneud hyn; gan arwain at ddiffyg craffu ar ymdeimladoldeb anifeiliaid yng Nghymru.<br><br>Byddai'r Bil hwn yn cynnig sefydlu Pwyllgor Ymdeimladoldeb Anifeiliaid yng Nghymru, a hwnnw er mwyn sicrhau bod holl bolisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu profi o ran eu heffaith ar fodau ymdeimladol ac unrhyw effeithiau andwyol ar les anifeiliaid. |

## Bil Ymchwiliadau i Les Anifeiliaid (Cymru)

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd Stephen Wooler CB adolygiad annibynnol o weithgarwch erlyn yr RSPCA. Roedd yr adroddiad hwn yn argymell deialog rhwng yr RSPCA a'r llywodraeth 'i geisio datblygu concordat i wneud gweithgareddau ymchwilio ac erlyn yr RSPCA yn ffurfiol'[2]. Anogai 'benodi Arolygwyr yr RSPCA sydd â phrofiad addas i fod yn Arolygwyr at ddibenion Deddf Lles Anifeiliaid 2006'[3].

Bwriad sicrhau bod rôl swyddogion yr RSPCA yn glir, yn enwedig wrth ddelio â phartneriaid gorfodi eraill yn yr heddlu ac awdurdodau lleol, yr un pryd â lleihau biwrocratiaeth a'r baich ar adnoddau cyrff statudol, a chynyddu effeithlonrwydd swyddogion yr RSPCA ar y rheng flaen.

Ar hyn o bryd, nid oes gan swyddogion yr RSPCA fwy o bwerau ffurfiol na chyfreithiol nag unrhyw aelod o'r cyhoedd. Byddai'r Bil hwn yn cynnig grymuso swyddogion rheng flaen yr RSPCA er mwyn iddynt fedru helpu anifeiliaid yn gyflymach; a lleihau'r ddibyniaeth ar gyrff statudol presennol sy'n gallu tynnu'r Heddlu a swyddogion awdurdodau lleol o weithgareddau rheng flaen eraill i wneud gwaith sy'n fiwrocrataidd gan mwyaf.



[2] The independent review of the prosecution activity of the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, Stephen Wooler CB, 24 September 2014, p24.
[3] Ibid

| Bil Rheoleiddio Llochesi Anifeiliaid (Cymru) | |
|---|---|
|  | Mae ysgolion marchogaeth, llety cathod a bridwyr cŵn – a hyd yn oed nawr pob gwerthwr anifeiliaid anwes – oll yn ddarostyngedig i reoliadau yng Nghymru ond nid felly sefydliadau lles anifeiliaid, neu 'llochesi' fel y'u gelwir. Mae llochesi yn aml yn gwneud gwaith amhrisiadwy wrth wella ac ailgartrefu anifeiliaid, ond mae diffyg mesurau diogelwch i amddiffyn lles anifeiliaid mewn lleoliadau o'r fath. Fel y mae pethau nawr, gall unrhyw un sefydlu lloches heb gael ei archwilio na bod ag unrhyw safonau lles neu gynlluniau wrth gefn petai argyfwng. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer gwirfoddol i lywodraethu safonau mewn llochesi – ond mae angen mwy o weithredu. Rhaid cyflwyno rheoliadau o dan y Ddeddf Lles Anifeiliaid, gan gynnig amddiffyniadau cyfreithiol i anifeiliaid sydd yn y 90 lloches yr amcangyfrifir sydd yng Nghymru.<br><br>Byddai'r Bil hwn yn cynnig amddiffyniadau cyfreithiol penodol i anifeiliaid sydd wedi'u lleoli yn 90 lloches amcangyfrifedig Cymru, gan sefydlu system drwyddedu a meincnodau ac amodau cyfreithiol y byddai'n rhaid i berchnogion llochesi eu bodloni. |

## Bil Bridio Cathod (Cymru)

Bron i ddegawd yn ôl, nodwyd bod tua 347[4] o fridwyr cathod yng Nghymru, ac eto nid oes rheidrwydd ar hyn o bryd i'r bridwyr hyn gael trwydded neu oruchwyliaeth. Er y rhoddir llawer o sylw i broblemau lles yn ymwneud â bridio cŵn bach, rhaid peidio ag anghofio am y cathod a'r cathod bach.

Byddai'r Bil hwn yn ategu'r gwaharddiad ar drydydd parti yn gwerthu cathod bach o dan reoliadau newydd sef Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid (Cymru) 2021, trwy gyflwyno safonau cyfreithiol penodol yn ymwneud â bridio cathod er mwyn sicrhau safonau lles gofynnol a hyrwyddo safonau uwch yn y sector. Ni fyddai gan unrhyw fridiwr cathod sy'n cyflawni safonau da neu uwch unrhyw beth i'w ofni o reoliad o'r fath, ond byddai gweithredu'n helpu i atal y rheiny sy'n peryglu lles cathod wrth geisio sicrhau elw mawr iddynt eu hunain drwy werthu cathod bach.



## Bil Anifeiliaid mewn Tai (Cymru)



Mae cadw anifeiliaid anwes mewn tai rhent gwarchod, cymdeithasol neu breifat yn gallu arwain at nifer o heriau. Gall datblygu Polisi Anifeiliaid Anwes sydd wedi'i orfodi'n dda sicrhau y gall mwy o denantiaid gadw anifeiliaid anwes, a gwneud hynny'n gyfrifol. Gall hyn hefyd helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, a chynorthwyo wrth gael tenantiaid sy'n hapusach ac yn iachach, a pherthynas fwy cytûn rhwng perchnogion anifeiliaid anwes a phobl heb anifeiliaid.

[4] Companion Animal Welfare Enhancement Scheme – Special Project: Cat Breeding

| | |
|---|---|
| | Byddai'r Bil hwn yn cynnig cyfres o fesurau i sicrhau nad yw perchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol yn cael eu cosbi oherwydd y math o lety y mae'r perchnogion yn byw ynddo. Y nod yw bod caniatáu anifail anwes yn gyfreithiol ragosodedig yn y sector tai cymdeithasol a rhentu preifat – oni bai bod yna yn rheswm y gellir ei gyfiawnhau i beidio â gwneud hynny. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau bod yn rhaid i'w hadolygiadau a'u strategaethau digartrefedd statudol ystyried sut i ddarparu mynediad i anifeiliaid anwes – yn enwedig cŵn – i lochesi, hosteli a llety arall i bobl ddigartref. |

| **Bil Troseddau Trapiau Glud (Cymru)** | |
|---|---|
| Mae trapiau glud – a elwir hefyd yn fyrddau glud neu fyrddau gludiog – yn dal anifeiliaid ar ddalen o gardbord, plastig neu bren sydd wedi'i orchuddio â glud nad yw'n sychu, neu mewn hambwrdd bas llawn glud. Yn anffodus, wrth geisio tynnu eu hunain yn rhydd, gall anifeiliaid rwygo darnau o ffwr, torri esgyrn neu hyd yn oed gnoi eu corff eu hunain i ddianc. Yn aml gall anifeiliaid sy'n cael eu dal gan y dyfeisiau fod yn sownd am gyfnodau hir, gan fod mewn poen, trallod a dioddefaint difrifol. Gall anifeiliaid heb neb yn mynd atynt farw'n araf o ddadhydradu, llwgu neu flinder. Nid yw trapiau glud yn dewis pa anifail i'w ddal; mae adar gwyllt a hyd yn oed anifeiliaid anwes y cartref yn aml yn dioddef.<br><br>Yn Lloegr, mae Bil Aelod Preifat, gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU, wedi cael ei gyflwyno gan Jane Stevenson AS[5], sy'n golygu bod perygl i Gymru syrthio y tu ôl i wledydd cyfagos o ran defnyddio'r trapiau erchyll hyn. |  |

[5] RSPCA Cymru News - Calls for Welsh Government action on glue traps as ban in England 'closer to reality', 18 June 2021

| | |
|---|---|
| Byddai'r Bil hwn yn cynnig gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio trapiau glud yng Nghymru – gan roi diwedd ar y trawma y gall y trapiau hyn ei achosi i anifeiliaid yng Nghymru. | |

## Bil Rhoi Anifeiliaid Anwes yn Wobrau (Cymru)



Mae bod yn berchennog ar anifail yn gyfrifoldeb mawr, a dylid ei gynllunio a'i ystyried yn ofalus. Mae RSPCA Cymru, felly, yn bryderus iawn bod anifeiliaid anwes – pysgod aur yn bennaf – yn dal i gael eu rhoi fel gwobrau yng Nghymru. Mae pysgod aur yn teimlo straen yn rhwydd ac yn aml iawn mae pysgod sy'n cael eu hennill fel gwobrau yn dioddef o sioc, newyn ocsigen neu'n marw o newidiadau yn nhymheredd y dŵr, a llawer yn marw cyn i'r perchnogion newydd eu cael adref. Gan na fu gweithredu ledled Cymru gyfan, mae'r RSPCA wedi llwyddo i annog nifer o awdurdodau lleol i wahardd yr arfer hwn ar eu tir. Fodd bynnag, y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod arfer o'r fath yn dod i ben yw gwaharddiad ledled Cymru wedi'i ymgorffori yn y gyfraith. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban, lle mae'n drosedd rhoi anifail fel gwobr waeth beth yw oedran y person (ac eithrio yng nghyd-destun teulu)[6].

Gan na fu gweithredu ledled Cymru gyfan, mae'r RSPCA wedi llwyddo i annog nifer o awdurdodau lleol i wahardd yr arfer hwn ar eu tir. Fodd bynnag, y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau bod arfer o'r fath yn dod i ben yw gwaharddiad ledled y wlad wedi'i ymgorffori yng nghyfraith Cymru. Byddai'r Bil hwn yn cynnig gwaharddiad llwyr ar roi anifail anwes yn wobr yng Nghymru.

[6] Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid (yr Alban) 2006, Adran 31 – Cynnig Anifeiliaid yn Wobrau.

## Bil Lles mewn Lladd-dai (Cymru)

Mae llawer i'w wneud yng Nghymru i wella lles anifeiliaid mewn lladd-dai – gan gynnwys gwell monitro trwy deledu cylch cyfyng, ac eithriadau sy'n caniatáu i rai anifeiliaid yng Nghymru gael eu lladd heb eu stynio i'w gwneud yn anymwybodol yn gyntaf.




Mae RSPCA Cymru yn frwd ei gefnogaeth i gyflwyno teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru, ac mae wedi hyrwyddo hyn ers cryn amser. Gall teledu cylch cyfyng nid yn unig helpu i roi sicrwydd bod safonau lles yn cael eu bodloni bob amser, ond gall hefyd helpu i amddiffyn y busnes rhag honiadau di-sail o gam-drin anifeiliaid, yn ogystal â bod yn ddull hyfforddi pwysig. Mae teledu cylch cyfyng bellach yn ofyniad ym mhob lladd-dy yn Lloegr lle mae anifeiliaid byw yn bresennol – mae'n hanfodol nad yw anifeiliaid fferm yng Nghymru yn cael eu gadael ar ôl. Byddai'r Bil hwn yn cynnig gwneud systemau teledu cylch cyfyng yn orfodol ym mhob lladd-dy; mae hwn yn fesur isel ei gost a allai ysgogi hyder defnyddwyr yng nghynnyrch Cymru a helpu i ddiogelu lles anifeiliaid yn well mewn lladd-dai.

Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos y gall anifeiliaid fferm sy'n cael eu lladd heb eu stynio brofi poen a thrallod sylweddol, ac mae'r arfer wedi'i labelu yn 'annerbyniol' gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm[7]. Er gwaethaf hyn, mae eithriadau o'r gofyniad i stynio cyn lladd yn bodoli ar gyfer lladd Shechita a Halal yng Nghymru. Dylid parchu credoau ac arferion crefyddol, wrth gwrs, ac mae rhyddid crefyddol yn hanfodol, ond cred RSPCA Cymru ei bod o'r pwys mwyaf bod anifeiliaid yn cael eu trin yn drugarog ar adeg eu lladd ac felly'n cael eu stynio cyn cael eu lladd. Byddai'r Bil hwn felly yn sicrhau nad yw'r eithriadau hyn bellach yn

[7] RSPCA, Religious slaughter.

| | |
|---|---|
| gyfreithiol gan sicrhau nad yw anifeiliaid fferm yn dioddef trwy beidio â chael eu stynio cyn eu lladd. | |

| **Bil Anifeiliaid wrth Gynllunio (Cymru)** | |
|---|---|
|  | Nid yw lles anifeiliaid ar hyn o bryd yn ystyriaeth gyfreithiol yn y broses gynllunio. Dylid ei ddynodi'n 'ystyriaeth berthnasol' yn y system gynllunio, er mwyn i effeithiau negyddol ar anifeiliaid fod yn ystyriaeth allweddol mewn ceisiadau cynllunio perthnasol. Pan fydd ceisiadau cynllunio yn ymwneud â llety anifeiliaid anwes neu anifeiliaid fferm, cânt yn aml eu gwrthwynebu'n eang, ac yn destun proses gyhoeddus a dadl gynllunio hirfaith. Fodd bynnag, mae'r ddadl hon yn aml yn seiliedig ar emosiwn i raddau helaeth, a hynny oherwydd diffyg egwyddorion lles anifeiliaid sy'n gyson ac wedi'u profi'n wyddonol ar gyfer y broses gynllunio gyfredol.<br><br>Mae'r Bil hwn yn cynnig diwygio'r gyfraith cynllunio yng Nghymru er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, gan ganiatáu llwybr cyfreithiol clir i herio datblygiadau sy'n effeithio ar les anifeiliaid yn negyddol. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy wneud lles anifeiliaid yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. |

| Bil Systemau Ffermio mewn Cewyll (Cymru) | |
|---|---|
| Mae sawl miliwn o anifeiliaid fferm Cymru yn cael eu magu mewn systemau cawell. Dim ond 66% o anifeiliaid fferm y gellid eu cewyllu ledled y Deyrnas Unedig sy'n cael eu magu mewn amodau heb gawell[8].<br><br>Yng Nghymru, caniateir llociau geni perchyll – tra bod llawer o ieir dodwy wedi'u cyfyngu i gewyll wedi'u cyfoethogi ys dywedir, a'r rhain yn dal yn peryglu lles. Mae adar hela a chwningod ymhlith y rhywogaethau eraill sy'n dal i gael eu ffermio mewn cewyll yng Nghymru.<br><br>Ym mis Mehefin 2021, addawodd y Comisiwn Ewropeaidd gael gwared ar systemau cawell yn raddol ar gyfer amrywiaeth o anifeiliaid a ffermir; yn dilyn Menter Dinasyddion Ewrop (ECI) 'Diwedd ar Oes y Gawell' a welodd gefnogaeth gan fwy na 1.4 miliwn o ddinasyddion, gan gynnwys dros 54,000 o'r Deyrnas Unedig[9]. Ar ôl i Gymru ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n hanfodol bod Cymru yn gweithredu ar y mater hwn i sicrhau nad yw lles anifeiliaid fferm ar ei hôl hi.<br><br>Byddai'r Bil hwn yn cynnig cael gwared yn raddol ar y defnydd o systemau cawell ar gyfer ieir dodwy, hychod, lloi, cwningod, cywennod, bridwyr ieir bwyta, bridwyr ieir dodwy, soflieir, hwyaid a gwyddau. |  |

[8] EndtheCageAge.eu
[9] Ibid


politicalaffairs@rspca.org.uk
0300 123 8910